

Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, Practis
Deintyddol Abergele.

15 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Bydd copiâu o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	10
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	12
6.	Camau nesaf.....	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd o flaen llaw o Bractis Deintyddol Abergele yng Nghroes Lwyd, Abergele, Conwy LL22 7TA, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15 Gorffennaf 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth o fewn taflen wybodaeth a gwefan y practis deintyddol (lle bo ar gael)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd lechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae practis deintyddol Abergele yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 3,000 o gleifion yn Abergele ac ardaloedd cyfagos Sir Conwy. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Abergele yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd (unig berchennog /darparwr y practis), un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a gwiriadau rheolaidd
- Llenwadau
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Tynnu dannedd
- Gwynnu dannedd

Ymgynghoriad ac atgyfeiriadau ar gyfer triniaethau arbenigol.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC ystyried sut mae Practis Deintyddol Abergele yn cyrraedd y safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Yn gyffredinol, roedd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir. Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ac agweddau eraill ar y gwasanaeth, megis sut i wneud cwyn a sut i gael mynediad i'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

Rydym wedi cynghori'r practis i weithredu systemau er mwyn cael adborth gan gleifion fel modd o ddysgu a, lle bo'n bosibl, gwella eu gwasanaethau ymhellach.

Canfuom fod systemau ar waith er mwyn hyrwyddo arferion gwaith diogel ac iechyd deintyddol y cleifion. Roedd cynlluniau eisoes ar droed i greu ystafell ddadheintio newydd, well, a newid y llawr yn un o'r deintyddfeydd trwy osod llawr gwrthlithro, gwell.

Roedd ansawdd cadw cofnodion gan y deintydd a'r hylenydd yn dda iawn. Gwnaethom ni atgoffa'r practis y dylai deintyddion ymgymryd â hyfforddiant IRMER (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000) bob pum mlynedd er mwyn cydymffurfio ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol gan y deintydd a rheolwr y practis. Roedd camau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cymryd i fuddsoddi a gwella cyfleusterau'n gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid gweithredu systemau mwy ffurfiol i hybu hyfforddiant dysgu a datblygu ar gyfer y staff.

Roedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael ar gyfer y deintydd, fodd bynnag, gwnaethom ei atgoffa bod rhaid ei adnewyddu bob tair blynedd, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom gynghori y dylid ystyried gwiriadau DBS ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant.

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau'n foddhaol a'r adeilad yn addas i'r pwrpas ar gyfer ei ddefnydd fel practis deintyddol. Fodd bynnag, pan gaiff y gwaith adnewyddu nesaf ei wneud, gwnaethom gynghori i'r practis ystyried addasrwydd y math o ddeunydd i'r llawr a'r dodrefn a ddefnyddir yn y manau aros, er mwyn osgoi sefyllfaoedd peryglus posibl.

5. Canfyddiadau

Profiad y claf

Yn gyffredinol, roedd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir. Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ac agweddau eraill ar y gwasanaeth, megis sut i wneud cwyn a sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau.

Rydym wedi cynghori'r practis i weithredu systemau er mwyn cael adborth gan gleifion fel modd o ddysgu a, lle bo'n bosibl, gwella eu gwasanaethau ymhellach.

Derbyniodd AGIC 15 o holiaduron wedi'u cwblhau oddi wrth gleifion. Dadansoddwyd eu hatebion ac roeddynt yn dangos bod gwybodaeth am brif agweddau'r gwasanaeth ar gael yn hawdd iddynt. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom arsylwi bod gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion, ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat, gweithdrefnau cwyno a manylion cyswllt tu allan i oriau (ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat) wedi'u harddangos yn y dderbynfa a/neu ystafelloedd aros.

Ychwanegodd 3 o'r cleifion sylwadau canmolïaethus sydd wedi eu nodi isod gyda'u caniatâd:

"Bob amser yn gwenu a pharod eu cymwynas". "Bob amser yn gwneud ffÿs o blant hefyd".

"Practis hyfryd". "Mae'r staff i gyd yn barod iawn eu cymwynas". "Rydych chi'n cael eich trin fel rhan o 'deulu'".

"Rydw i bob amser yn derbyn gwasanaeth da iawn ym mhob ffordd".

"Staff hynod gyfeillgar a pharod eu cymwynas".

Roedd pump o'r cleifion wedi profi oedi ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Fodd bynnag gwnaethant i gyd nodi bod oediadau yn ddigwyddiadau prin, ac ond yn para ychydig funudau.

Canfuom nad oedd gan y practis system ffurfiol ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Gwnaethom gynghori y dylid datblygu system ar gyfer y diben hwn er mwyn i'r practis gael gwybod yr hyn mae'n ei wneud yn dda a'r hyn y dylid ei wella.

Meysydd sydd angen gwella

Dylai'r practis weithredu prosesau ar gyfer asesu a gwerthuso profiad y cleifion. Dylid defnyddio adborth gan gleifion er mwyn dylanwadu/ysgogi newidiadau i'r gwasanaeth.

Er bod y wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir yn dda yn gyffredinol, gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ystyried darparu rhagor o wybodaeth yn y Gymraeg (er mwyn ystyried anghenion cleifion Cymraeg sy'n dod i'r practis). Cawsom ein hysbysu bod yr hylenydd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg a bod rhai aelodau o'r staff yn deall ond heb fod â'r gallu i ateb yn rhugl yn y Gymraeg.

Hefyd gwnaethom awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu eraill. Er enghraifft, gwelsom fod yr ysgrifen ar un o'r hysbysiadau, 'Polisi Ansawdd y Practis' yn fach iawn ac efallai nad oedd yn addas ar gyfer cleifion â nam ar eu golwg. Cytunodd rheolwr y practis i ystyried ein hawgrymiadau.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Canfuom fod systemau ar waith i hyrwyddo arferion gwaith diogel ac iechyd deintyddol y cleifion. Roedd cynlluniau ar droed i greu ystafell ddadheintio newydd, well, a newid y llawr yn un o'r deintyddfeydd trwy osod un gwrthlithr, gwell.

Roedd ansawdd cadw cofnodion gan y deintydd a'r hylenydd yn dda iawn. Gwnaethom atgoffa'r practis y dylai deintyddion ymgymryd â hyfforddiant IRMER (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000) bob pum mlynedd er mwyn cydymffurfio ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom wiriadau cynnal a chadw a thystysgrifau ar gyfer y peiriant pelydr-X a ddefnyddir yn y practis. Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond mis Mawrth 2009 oedd y tro diwethaf i'r deintydd ymgymryd â hyfforddiant dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Meysydd sydd angen gwella

Er mwyn cydymffurfio â safonau 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, atgoffir gweithwyr proffesiynol deintyddol i ymgymryd ag o leiaf pum awr o hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd ym mhob cylchred pum mlynedd o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd gan y staff fynediad at offer a meddyginiaeth mewn argyfwng a gwelsom fod y rheini wedi eu cadw'n ddiogel yn yr adeilad. Roedd system ar waith i newid eitemau yn unol â'u dyddiad dod i ben.

Roedd gan y practis gontractau ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom arsylwi bod gwastraff clinigol ac offer miniog cyffredinol yn cael eu gwaredu yn y cynwysyddion â chod lliwiau priodol, yn unol â chanllawiau rheoli gwastraff gofal iechyd.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo i greu ystafell ddadheintio newydd (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer a chyfarpar) yn un o'r ystafelloedd storio mawr presennol, a rhagwelwyd y byddai'r gwaith yn cymryd oddeutu tair wythnos i'w gwblhau. Gwnaethom edrych ar y cynlluniau ar gyfer yr ystafell hon a chanfod bod y cyfleusterau arfaethedig yn unol â chanllawiau dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ar gyfer practisau deintyddol.

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn defnyddio ystafell lai o faint ar gyfer dadheintio offer. Er nad oedd gan yr ystafell hon y cyfleusterau WHTM 01-05 a argymhellir, roedd camau ychwanegol wedi'u cymryd i leihau'r risg o groesheintio, a oedd yn briodol hyd nes y byddai'r cyfleusterau gwell, newydd yn barod.

Roedd tair ystafell driniaeth fawr yn y practis a gwelsom eu bod wedi'u cyflenwi'n dda ac mewn cyflwr da yn gyffredinol. Roedd gan un o'r ystafelloedd triniaeth gyfleusterau storio modern wedi'u gosod. Fodd bynnag, roedd rhan o'r ystafell hon wedi'i charpedu, nad yw'n cael ei argymhell mewn man clinigol neu ddadheintio (Nodyn Adeiladau Iechyd Cymru 00-009) Cawsom ein hysbysu bod cynlluniau eisoes ar droed i newid deunydd y llawr yn yr ystafell hon, ar yr un pryd a'r man dadheintio newydd, trwy osod deunydd llawr gwrthlithro mwy priodol ac un sy'n hawdd i'w lanhau. Dangoswyd gwahanol samplau o ddeunydd llawr gwrthlithro i ni fel tystiolaeth. Gan eu bod yn rhagweld y byddent yn cwblhau'r gwaith hwn dros yr wythnosau nesaf, ni wnaethom gynnwys hyn fel rhan o'n cynllun gwella ar yr achlysur hwn.

Gwnaethom edrych ar sampl o bump o gofnodion ar gyfer pob deintydd a hylenydd. Roedd cofnodion cyfrifiadur yn cael eu cadw wrth gefn bob dydd. Canfuom fod ansawdd cadw cofnodion yn dda iawn, ac yn cynnwys manylion cynhwysfawr o drafodaethau a thriniaethau a ddarparwyd. Gwelsom dystiolaeth o drafodaethau ynglŷn â hyrwyddo iechyd y geg. Nid oedd gan y deintydd na rheolwr y practis gopi o'r pecyn cymorth 'Darparu Iechyd y Geg Gwell' ac nid oeddynt yn gyfarwydd ag ef. Fodd bynnag, argraffodd rheolwr y practis y ddogfen hon tra oeddem yno a gwnaethant gytuno i ymgyswddo â'r cynnwys.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol gan y deintydd a rheolwr y practis. Roedd camau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cymryd i fuddsoddi a gwella cyfleusterau'n gyffredinol. Fodd bynnag, , gwnaethom gynghori y dylid gweithredu systemau mwy ffurfiol i hybu staff i ddysgu a datblygu.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael i'r deintyddion, fodd bynnag, gwnaethom eu hatgoffa bod rhaid eu hadnewyddu bob tair blynedd, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom gynghori y dylid ystyried gwiriadau DBS ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant.

Roedd y prif ddeintydd wedi cymryd awenau'r practis lawer o flynyddoedd yn ôl, gan gael y busnes oddi wrth ei dad a oedd hefyd wedi bod yn berchennog practis a deintydd ers amser maith. Ar wahân i un o'r nyrsys, a ddechreuodd ei swydd ym mis Hydref 2013, roedd pob aelod arall o'r staff wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Roedd deintydd newydd ar fin dechrau yn ei swydd yn ystod mis Awst 2015.

Gwnaethom edrych ar y rhaglen gynefino a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol a'r polisiâu arfer allweddol mewn modd manwl iawn. Roedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael i'r deintydd, fodd bynnag, roedd y datgeliad diwethaf wedi'i gyflwyno yn 2009 ac felly tu allan i'r cyfnod o dair blynedd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Meysydd sydd angen gwella

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, dylai fod gan ddeintyddion sydd yn darparu gwasanaethau deintyddol ar gyfer cleifion preifat wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gyhoeddi o fewn y tair blynedd diwethaf.

Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r deintydd sy'n cyflogi ymgymryd â gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas i'w cyflogi. Trafodwyd hyn â'r practis, a chanfuom nad oedd gwiriadau DBS ar gael ar gyfer unrhyw aelod arall o'r staff.

Meysydd sydd angen gwella

Er nad yw'n orfodol, dylai'r practis ystyried gwiriadau cyflogaeth cyfnodol (DBS) ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer

hon hefyd yn gyson â'r canllawiau diogelu oedolion a phlant ar gyfer practisau deintyddol.

Gwelsom fod aelodau staff yn gyfredol o ran hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu plant ac oedolion a dadebru cardio-pwlmonaidd.

Er bod tystiolaeth o arfarniadau staff ar gyfer un aelod o staff cawsom ein hysbysu bod dull mwy anffurfiol yn cael ei ddefnyddio gydag aelodau eraill o staff. Roedd y dull hwn yn debyg ar gyfer trafodaethau tîm, gan nad oedd tystiolaeth ddogfennol ar gael ar gyfer unrhyw drafodaethau neu gyfarfodydd.

Meysydd sydd angen gwella

Dylai systemau mwy ffurfiol fod ar gael er mwyn galluogi staff i ddysgu a datblygu i'w potensial llawn, er enghraifft:

- ***Sicrhau bod aelodau o staff yn derbyn arfarniad staff blynyddol a chynllun datblygiad personol.***
- ***Sicrhau bod gan staff fynediad at gyfleoedd er mwyn datblygu arferion cydweithio a gweithio fel tîm. Er enghraifft, dylai cyfarfodydd tîm gael eu cofnodi a'u defnyddio fel offeryn i ddysgu a dysgu oddi wrthynt.***

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu'r practis a gweithdrefnau a oedd wedi'u trefnu'n dda ac wedi cael eu haddasu ar gyfer tîm y practis. Roedd y gweithdrefnau cwyno yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella'⁴ y GIG ac yn cynnwys manylion cyswllt y cleifion sy'n derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat. Cawsom wybod nad oedd unrhyw gwynion cyfredol, ac mewn gwirionedd, nid oedd y staff yn gallu cofio'r gŵyn ddiwethaf roeddynt wedi'i derbyn, boed honno'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Roedd y staff yn priodoli'r ffactor hwn i'r ffaith eu bod yn rhedeg practis bach gyda'r un staff a'r un cleifion ers amser maith.

Trwy ein trafodaethau â'r staff cawsom ein hysbysu bod archwiliadau clinigol a chymheiriaid wedi'u cynnal. Un o'r rhain oedd archwiliad rheoli heintiau a welsom yn cael ei gynnal yn ystod 2014. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o'r offeryn yn y dyfodol, sydd ar gael oddi wrth yr adran ddeintyddol olraddedig yn Neoniaeth Cymru, ac y dylid cadw tystiolaeth ddogfennol o unrhyw archwiliadau mewnol eraill a gynhelir.

⁴ 'Gweithio i Wella' GIG yw'r trefniadau ar gyfer trin ac ymateb i gwynion am y GIG, sy'n cynnwys gwasanaethau deintyddol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau'n foddhaol a'r adeilad yn addas i'r pwrpas fel practis deintyddol. Fodd bynnag, pan gaiff y gwaith adnewyddu nesaf ei wneud, gwnaethom gynghori i'r practis ystyried addasrwydd y llawr a'r dodrefn sydd yn y manau aros, er mwyn osgoi peryglon posibl.

Symudodd Practis Deintyddol Abergele i'w leoliad presennol yn 1986, ar ôl cael ei drawsnewid o fod yn eiddo preswyl. Yn gyffredinol, roedd yr ystafelloedd yn fawr, a chanfuom fod digonedd o le storio a chyfleusterau staff tu mewn i'r adeilad. Nid oedd unrhyw gyfleusterau parcio ceir dynodedig ar gael ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, roedd cyfnod o hyd at dair awr o barcio am ddim ar gael yn yr archfarchnad sydd y tu cefn i'r eiddo ac roedd manau parcio anghyfyngedig ar y stryd o flaen y practis.

Roedd y practis yn addas ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn ac roedd mynediad at bob man ar y llawr daear, a oedd y cynnwys y dderbynfa, man aros a dwy ystafell driniaeth. Roedd ystafell driniaeth a man aros arall ar y llawr cyntaf.

Er i ni gael ein hysbysu nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi cael eu gweld na'u nodi gan gleifion ac ymwelwyr o ganlyniad i faglu neu syrthio, gwnaethom nodi ychydig o beryglon amgylcheddol posibl. Roedd gan y manau aros, grisiau a choridoriau teils carped wedi eu gosod ar y llawr, a hynny'n ddiogel yn ôl bob golwg ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, fel rhan o gynlluniau adnewyddu'r practis ar gyfer y dyfodol, gwnaethom awgrymu y dylid ystyried deunydd llawr ddi-uniad, er mwyn rhwystro bylchau posibl a pheryglon baglu pan fydd y deunydd yn teneuo.

Mewn manau eraill, roedd tâp wedi ei llynu ar freichiau rhai o'r soffas, ar ddarnau oedd wedi treulio. Roedd gan y soffas eraill roeddynt yn eu defnyddio deunydd yn llusgo ar y llawr, a allai achosi rhywun i faglu pe bai'n dal ei droed neu ddyfais symudedd arno. Hefyd, roedd bwch rhwng sedd a chefn rhai o'r cadeiriau ac, am nad oedd yr wyneb yn wrthlithro, gallent fod yn beryglus pe bai plant ifanc neu bobl lai symudol yn eu defnyddio. Felly, pan fydd angen adnewyddu'r manau hyn nesaf, gwnaethom awgrymu y dylid ystyried y math o ddodrefn a ddewisir o ran eu haddasrwydd ar gyfer practis deintyddol.

Meysydd sydd angen gwella

Fel rhan o gynlluniau adnewyddu'r practis ar gyfer y dyfodol, dylid ystyried addasrwydd dodrefn a gosodiadau, er mwyn lleihau peryglon posibl.

Roedd yr holl fannau a arolygwyd yn lân ar ddiwrnod yr arolygiad. Cawsom ein hysbysu bod glanhawr yn dod i mewn ddwywaith yr wythnos a bod y dasg hon yn cael ei rhannu rhwng y staff ar bob achlysur arall. Gwelsom fod gan y deunyddiau glanhau god lliw, yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau, er mwyn gwahaniaethu rhwng mannau clinigol a'r mannau eraill.

6. Camau nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Abergele, gan gynnwys amserlenni.

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Abergele, Groes Lwyd, Abergele, LL22 7TA

Dyddiad yr Arolygiad: 15 Gorffennaf 2015

Rhif y Dudalen	Meysydd sydd angen gwella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y claf				
6-7	<i>Dylai'r practis weithredu prosesau ar gyfer asesu a gwerthuso profiad y cleifion. Dylid defnyddio adborth gan gleifion er mwyn dylanwadu/ysgogi newidiadau i'r gwasanaeth.</i> [Safon Iechyd a Gofal 6.3]	Erbyn hyn, mae ffurflenni adborth cleifion wedi'u creu a byddant yn cael eu cyflwyno i gleifion yn rheolaidd.	Rachel Sheldon	Yn parhau
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	<i>Er mwyn cydymffurfio â safonau 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, atgoffir</i>	Mae'r deintydd y cyfeirir ato yng nghanol ei gylchred presennol o bum mlynedd o'i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac wedi ymgymryd â'i hyfforddiant radiograffeg yn ei	Dr Francis	Cyn gynted â phosibl

Rhif y Dudalen	Meysydd sydd angen gwella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><i>gweithwyr proffesiynol deintyddol i ymgymryd ag o leiaf pum awr o hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd ym mhob cylchred pum mlynedd o'u datblygiad proffesiynol parhaus.</i></p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.9 a 6.3]</p>	<p>gylchred diwethaf. Trefnwyd iddo fynychu'r cwrs IRMER nesaf sydd ar gael.</p>		
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
10	<p><i>Dylai fod gan ddeintyddion sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion preifat dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) manylach wedi'i chyhoeddi o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.</i></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 7.1]</p>	<p>Mae cais wedi'i wneud ar gyfer tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy Mayflower Disclosure Services Ltd.</p>	Dr Francis	Cyn gynted â phosibl
10	<p><i>Er nad yw'n orfodol, dylai'r practis ystyried casglu gwiriadau cyflogaeth cyfnodol (DBS) ar gyfer holl aelodau staff sy'n gweithio yn y practis. Byddai'r arfer hon hefyd yn gyson â'r canllawiau diogelu oedolion a phlant ar gyfer practisau</i></p>	<p>Gweithdrefn ar waith ar gyfer staff newydd Rhoddir ystyriaeth briodol i'r mater hwn, os bydd tystysgrifau DBS yn dod yn orfodol yna byddwn yn sicrhau ar unwaith ein bod yn eu derbyn.</p>	Rachel Sheldon	Yn parhau

Rhif y Dudalen	Meysydd sydd angen gwella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>deintyddol</i> [Safon Iechyd a Gofal 7.1]			
11	<p><i>Dylai systemau mwy ffurfiol fod ar gael er mwyn galluogi staff i ddysgu a datblygu i'w potensial llawn, er enghraifft:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>Sicrhau bod aelodau staff yn derbyn arfarniad staff blynyddol a chynllun datblygiad personol.</i> <i>Sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd er mwyn datblygu arferion cydweithio a gweithio mewn tîm. Er enghraifft, dylai cyfarfodydd tîm gael eu cofnodi a chael eu defnyddio fel offeryn i ddysgu a dysgu oddi wrthynt.</i> <p>[Safon Iechyd a Gofal 7.1]</p>	Bydd arfarniadau staff blynyddol a diweddariadau yn cael eu ffurfioli. Byddwn ni hefyd yn cofnodi cyfarfodydd tîm a chymryd camau priodol os bydd angen .	Rachel Sheldon	Yn parhau
Ansawdd yr Amgylchedd				
12	<i>Fel rhan o gynlluniau adnewyddu'r practis ar gyfer y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth i addasrwydd y dodrefn a'r gosodiadau, er mwyn lleihau peryglon posibl.</i>	Nodwyd eich sylwadau. Pan welwn yr angen i wneud gwaith adnewyddu yn y practis cymerwn y sylwadau i ystyriaeth.	Dr Francis	Pan fydd cyllideb y practis yn caniatáu

Rhif y Dudalen	Meysydd sydd angen gwella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	[Safon Iechyd a Gofal 2.1]			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): Miss Rachel Sheldon

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18 Awst 2015